Papur 1

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Awst 2023

Annwyl John

Yn ystod fy mhresenoldeb yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar gyfer ei Ymchwiliad i Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol ar 13 Gorffennaf, trafodwyd y gydnabyddiaeth gan y llysoedd y dylai'r cynghorwyr gael 'croen mwy trwchus' wrth ymdrin â sylwadau a wneir gan eraill. Cadarnheais fod hyn wedi codi o gyfraith achosion a chytunais i roi gwybodaeth bellach i chi.

Fel y soniais yn y Pwyllgor, yn ystod fy nghyfarfod yn ddiweddar ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("Yr Ombwdsmon"), dywedodd yr Ombwdsmon fod cydbwysedd i'w daro wrth ystyried lle y tynnir y llinell rhwng 'croen mwy trwchus' a cham-drin.

**Yr achos**

Yn y cyntaf o gyfres o achosion ar y pwnc hwn Calver, R (On the Application Of) v The Adjudication Panel for Wales (Rev 2) [2012] EWHC 1172 (Admin) (03 May 2012), roedd y Llys Gweinyddol o'r farn bod y penderfyniad i geryddu cynghorydd cymuned o Gymru am sylwadau ar ei flog yn ymyrraeth anghymesur â'i hawl i ryddid mynegiant. Mae'r hawl hon yn gofyn am ddehongliad eang o'r hyn sy'n cyfrif fel "ieithwedd wleidyddol" (political speech) – hyd yn oed pan fo'r ieithwedd yn goeglyd ac yn wawdlyd.

Gwnaed y dyfarniad yn dilyn ymchwiliad gan yr Ombwdsmon i'r cynghorydd a arweiniodd at atgyfeiriad at bwyllgor safonau'r cyngor sir perthnasol a benderfynodd fod nifer o flogiau'r cynghorydd a oedd yn beirniadu cynghorwyr unigol yn torri Cod Ymddygiad y cyngor cymuned. Apeliodd y cynghorydd at Banel Dyfarnu Cymru ("PDC") ar seiliau a oedd yn cynnwys torri Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i ryddid mynegiant), a wrthodwyd gan PDC. Gofynnodd y cynghorydd wedyn am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn.

Yn yr adolygiad barnwrol, daethpwyd i'r casgliad bod PDC wedi cymryd golwg rhy gul o'r hyn sy'n gyfystyr â 'mynegiant gwleidyddol' (political expression) o dan Erthygl 10. Penderfynodd Mr Ustus Beatson, ymhlith pethau eraill, nad oedd unrhyw ystyriaeth wedi ei rhoi ym mhenderfyniad y Panel i'r hyn a ddywedwyd yng nghyfreitheg Strasbwrg am yr angen i wleidyddion gael croen mwy trwchus nag eraill. Yn benodol, cyfeiriodd at yr "amddiffyniad cryfach" (enhanced protection) ar gyfer datganiadau yn y maes gwleidyddol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a'r disgwyliad, os yw gwrthrych datganiadau o'r fath yn wleidyddion sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swyddogaeth gyhoeddus, eu bod yn agored i graffu manwl ar eu geiriau a'u gweithredoedd ac y disgwylir iddynt feddu ar groen mwy trwchus a mwy o oddefgarwch nag aelodau cyffredin o'r cyhoedd.

Dyfarnodd Mr Ustus Beatson fod peidio â chaniatáu beirniadaeth o gynghorwyr ar lefel bersonol yn “disproportional interference of rights enshrined in Article 10 of the European Convention on Human Rights”.

O ganlyniad i'r gyfraith achosion hon, mae gan yr Ombwdsmon, wrth ystyried cwynion, y dasg anodd o wahaniaethu rhwng a yw achos yn cynnwys ymddygiad sy'n gyfystyr â dadl a her wleidyddol gyfreithlon (sydd wedi’u dehongli’n eang gan y Llysoedd), neu a oes camau y tu hwnt i hyn sy'n cyfrif fel ymddygiad annerbyniol, megis bwlio, aflonyddu neu fygythion, ac rydym i gyd yn cytuno bod yr uchod yn annerbyniol. Cydnabu Mr Ustus Beatson nad oedd “llinell bendant” rhwng y gwahanol elfennau hyn.

I grynhoi, mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'i ymgorffori mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, ac mae *Calver*, ac achosion perthnasol dilynol, yn dangos i ba raddau y mae rhaid i awdurdodau lleol a PDC wneud eu penderfyniadau yn unol ag egwyddorion y Confensiwn.

Yn gywir,

Rebecca

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government